## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

**Erthygl 6 (Hawl i fyw):** Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Y bwriad o ddiweddaru'r ddogfen ganllaw yw sicrhau bod plant mewn ysgolion (dysgwyr) yn cael y cyfle i ddatblygu yn y lleoliad addysg, a bod effeithiau unrhyw anghenion gofal iechyd yn cael eu lleddfu gan drefniadau'r lleoliad. Mae hynny'n cynnwys darparu offer, gweithdrefnau brys neu weithdrefnau eraill, a gweinyddu meddyginiaeth yn ôl yr angen, gan gynnwys sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi'n briodol mewn perthynas â'r rhain.

**Erthygl 12 (Yr hawl i ddweud eu barn):** Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Mae'r fersiwn ddrafft bresennol yn ei gwneud yn glir y dylid ystyried rhieni/gofalwyr a'r dysgwyr eu hunain, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw, pan fo'r ysgol yn pennu'r cymorth y mae ei angen i reoli anghenion gofal iechyd o ddydd i ddydd.

**Erthygl 23 (Cymorth oherwydd anabledd):** Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth er mwyn iddynt allu byw bywyd llawn ac annibynnol.

Mae'r ddogfen ganllaw'n egluro dyletswyddau cyfreithiol ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas â dysgwyr yr ystyrir eu bod yn anabl o dan ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddogfen yn rhoi gwybodaeth ynghylch y rhwymedigaeth i lunio cynlluniau hygyrchedd ar gyfer gwella'r mynediad i amgylchedd ffisegol yr ysgol. Mae hefyd yn nodi, lle bo gan ddysgwr anabledd, y dylid gwneud pob ymgais i'w gynnwys mewn gweithgareddau sydd y tu allan i'r cwricwlwm neu i ffwrdd o'r safle. Mae'r ddogfen yn ei gwneud yn glir ei bod yn arfer annerbyniol anfon dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd gartref yn aml, neu eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol.

**Erthygl 28 (Yr hawl i addysg):** Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai addysg gynradd fod am ddim a dylai gwahanol ffurfiau ar addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu eu hurddas dynol a'u hawliau. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Mae'r ddogfen ganllaw'n canolbwyntio'n llwyr ar hwyluso mynediad dysgwyr i addysg lawn, er gwaethaf unrhyw anghenion gofal iechyd sydd ganddynt.

## Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Mae'r cyngor i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cadarnhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn wedi ei gwblhau. Ni nodwyd unrhyw wrthdaro ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

